

Archwilio Pam

Goleuni



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Pam

Goleuni

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO PAM

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres Archwilio Pam

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Arbrowfch gyda goleuni, a phrofwch wahanol ddeunyddiau er mwyn archwilio pa rai mae goleuni'n pasio trwyddyn nhw (**Gweithgaredd 1**)
- Lluniwch gysgodion ac archwiliwch sut mae cysgodion yn newid gyda goleuni, siapiau a phellteroedd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am beth ydych chi'n ei weld trwy ffenest eich ystafell wely. Sut mae'n debyg i beth mae Aled a Siân yn ei weld, a sut mae'n wahanol?
- Meddyliwch am wahanol eiriau i ddisgrifio nos a dydd

Datblygiad iaith Gymraeg

- goleuni
- haul

Datblygiad corfforol

- Gwnewch rai ymarferion boreol er mwyn eich deffro a'ch cael yn barod i ddechrau ar y diwrnod ysgol
- Sylwch ar gymylau a smaliwch fod yn gwmwl yn symud ac yn newid wrth i chi deithio ar draws yr awyr

Datblygiad creadigol

- Gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau a phaent, darluniwch yr olygfa o ffenest eich ystafell wely
- Lluniwch ddeial haul

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Archwiliwch pam mae pobl yn cysgu yn y nos, a pha mor hir y dylai pobl gysgu
- Siaradwch am sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi wedi blino a heb gael digon o gwsg

Datblygiad mathemategol

- Cadwch gofnod o'ch oriau cwsg, gan nodi'r amser y byddwch chi'n mynd i'r gwely a'r amser y byddwch chi'n deffro
- Ar ddiwrnod braf, ceisiwch ddangos (trwy ddefnyddio sialc) beth sy'n digwydd i'ch cysgod ar wahanol adegau o'r dydd






Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Arbrawf â goleuni

Gan ddefnyddio tortsh, arbrofwch er mwyn gweld pa ddeunyddiau y mae goleuni'n mynd trwyddyn nhw. Cofnodwch eich canlyniadau yn y blychau.

pren		
metel		
gwydr		
plastig		
papur		



Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Dysgwch am fylbiau golau, a'r gwahanol fathau o fylbiau golau sy'n bosib eu prynu
- Archwiliwch sut a pham rydyn ni'n defnyddio golau (e.e. bylbiau golau, goleuadau'r stryd, lampau ceir, goleuadau diogelwch, golau popty, paneli solar, llygaid cathod ar y ffyrdd)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y pethau welwch chi yn y llun o'r atig, ac i bwy rydych chi'n meddwl yr oedd y pethau'n perthyn
- Archwiliwch wahanol eiriau sy'n disgrifio goleuni (**Gweithgaredd 2**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- bwlb golau
- siop elusen

Datblygiad corfforol

- Meddyliwch am bethau eraill y mae pobl eu gwneud er budd elusen – trefnwch weithgaredd fel taith gerdded neu ras o gwmpas tir yr ysgol
- Rhowch gynnig ar ddringo'r grisiau'n ofalus fel gwnaeth Aled a Siân

Datblygiad creadigol

- Lluniwch gollage gan ddefnyddio lluniau o gylchgronau o wahanol oleuadau
- Torrwch allan amlinelliad o lun, neu batrwm, a'i daflunio ar wal gan ddefnyddio golau

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Dysgwch am siopau elusen, a phwy maen nhw'n eu helpu
- Dysgwch am sut i beidio â bod yn wastraffus trwy ddiffodd goleuadau, a meddyliwch am beryglon trydan yn y cartref

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch nifer y goleuadau, switshis golau, a socedi trydan sydd yn yr ystafell ddosbarth
- Cyfrifwch y nifer o secwinau ar y ffrog

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol












Geiriau goleuni

Torrwch allan y lluniau unigol a'r geiriau.

- Gosodwch y geiriau a'r lluniau i gyfateb ei gilydd.

pelydru	
llosgi	
melltennu	
llewyrchu	
fflachio	
adlewyrchu	
tywynnu	
disgleirio	



Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Arbrowfch gydag adlewyrchiadau, a cheisiwch ganfod pa ddeunyddiau sy'n adlewyrchu goleuni
- Siaradwch am y pethau welwch chi yn y llun sy'n gweithio â batris, a beth fydddech chi ddim yn gallu ei wneud heb fatris

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dangoswch un o'ch ffotograffau a siaradwch amdano gyda'ch gilydd. Pa stori mae'n ei hadrodd?
- Dywedwch stori trwy ddefnyddio rhai o'r 'props' o'r bocs teganau

Datblygiad iaith Gymraeg

- torsh; y dortsh las
- ystafell wely

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch gêm bêl gyda pheli o wahanol faint, gan ddefnyddio'r geiriau 'mwyaf', 'lleiaf' a 'run faint'
- Smaliwch fod yn awyren yn esgyn ac yn gwibio trwy'r awyr

Datblygiad creadigol

- Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, lluniwch albwm yn cofnodi'r camau neu'r digwyddiadau pwysig yn eich bywyd
- Gwnewch gollage o luniau gwahanol fathau o dortshis

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Dysgwch am fannau sydd heb ddim ond mynediad cyfyngedig at gyflenwad trydan
- Rhannwch focs o deganau â phlant eraill

Datblygiad mathemategol

- Gan ddefnyddio tortsh, anfonwch air byr mewn Cod Morse, e.e. helo, SOS (**Gweithgaredd 3**)
- Ysgrifennwch air byr mewn Cod Morse, a'i ddatrys (**Gweithgaredd 3**)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Neges Cod Morse

Defnyddiwch dortsh i anfon negeseuon.

Fflach fer yw dot (.) a fflach hir yw dash (-)



helo-.. ---

S.O.S ... --- ...

pêl .-.. . .-..

dau -.. .- .. -

pump .-.. ..- -- .-..

deg -.. . --.



Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Chwiliwch am fwy o wybodaeth ynghylch stormydd
- Sylwch ar y tywydd a chadwch gofnod ohono am wythnos

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Adroddwch stori am 'Y Storm Fawr'
- Oddi mewn i dempled taranfollt, ysgrifennwch gerdd am storm

Datblygiad iaith Gymraeg

- Taranfollt
- Taranau

Datblygiad corfforol

- Lluniwch ddawns yn darlunio un math o oleuni (e.e. mellt, tân gwyllt, llewyrch kannwyll, yr haul yn codi)
- Smaliwch redeg rhag y storm mor gyflym ag y gallwch chi

Datblygiad creadigol

- Cyfansoddwch gerddoriaeth i adrodd stori storm daranau
- Paentiwch lun storm yn darlunio mellt

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Nodwch beryglon goleuni, e.e. llosg haul, canhwyllau'n cael eu gadael yn olau heb neb yn bresennol, mellt (**Gweithgaredd 4**)
- Archwiliwch yr effaith mae storm yn ei chael ar fywydau pobl yn y wlad hon yn ogystal ag mewn gwledydd eraill

Datblygiad mathemategol




- Holwch ynghylch faint o blant y dosbarth sydd wedi gweld mellt, a faint sydd wedi clywed swm taranau. Cyflwynwch y wybodaeth mewn ffordd hawdd ei darllen
- Eisteddwch allan yn yr awyr agored a chyfrifwch faint o wahanol fathau o gân adar y gallwch eu clywed (neu faint o wahanol fathau o synau y gallwch eu clywed)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Allwch chi nodi'r peryglon golau a thrydan yn y llun?





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Beth yw cofebion rhyfel, a beth sy'n digwydd wrthyn nhw?
- Profwch wahanol ddefnyddiau i weld pa ddefnydd fyddai'r gorau (a'r gwaethaf) i'w wisgo yn y glaw

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am wahanol ffyrdd o orffwys, a lluniwch restr
- Gan ddefnyddio un o'r templedi haul, mellten neu gannwyll, lluniwch gerdd am oleuni (**Gweithgaredd 5**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- kannwyll
- dydd gorffwys

Datblygiad corfforol

- Gosodwch fwrdd ar gyfer y Shabbat, gan osod popeth yn ei le'n ofalus
- Rhowch gynnig ar gario platiau, gyda 'bwyd chwarae' arnyn nhw, yn ofalus rhag i ddim gwmpo

Datblygiad creadigol

- Addurnwch gannwyll ar gyfer y Shabbat
- Dyluniwch blât Shabbat arbennig


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol


- Siaradwch am adegau pan fyddwch chi'n cael prydau bwyd teuluol gyda'ch gilydd. Pam mae bwyta gyda'ch gilydd fel teulu'n bwysig?
- Dywedwch wrth eraill beth sydd gennych chi ar y bwrdd gartref, ac edrychwch ar luniau o wahanol fyrdau wedi eu gosod mewn gwahanol fannau yn y byd

Datblygiad mathemategol


- Darparwch amrywiaeth o wahanol fathau o ganhwyllau i'w dosbarthu yn ôl eu math, a chyflwynwch y data am y canhwyllau ar ffurf tabl
- Cofnodwch y gwahaniaeth rhwng graddfa eich pwls cyn ymarfer a graddfa'r pwls ar ôl i chi ymarfer

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol











Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sydd angen ei olchi neu ei lanhau'n rheolaidd yn y cartref, a pham
- Yn unol â gofynion y Shabbat, dosbarthwch hambwrdd o luniau yn ôl gweithgareddau 'gorffwys' a gweithgareddau 'gwaith' (**Gweithgaredd 6**)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl pryd bwyd nos Wener y Shabbat
- Darllenwch y bendithion sy'n cael eu defnyddio ym mhryd bwyd y Shabbat ar nos Wener

Datblygiad iaith Gymraeg

- Shabbat
- bendith

Datblygiad corfforol

- Tacluswch yr ystafell ddosbarth a'i glanhau fel pe byddech chi'n paratoi ar gyfer y Shabbat
- Golchwch y llestri'n ofalus ar ôl pryd bwyd y Shabbat

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch a gwnewch orchudd i'r bara
- Ysgrifennwch un o fendithion y Shabbat, a gwnewch ffrâm llun i'w harddangos

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol


- Rhewch gynnig ar dacluso ar ôl i chi orffen gwneud rhywbeth
- Meddyliwch am beth fydddech chi'n gallu ei wneud i helpu gartref

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch a chofnodwch beth yw maint y byrddau yn yr ystafell ddosbarth
- Ddarganfyddwch faint o bobl sy'n gallu eistedd o gwmpas pob bwrdd, a faint o bobl sy'n gallu eistedd o gwmpas y byrddau i gyd

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Gweithgareddau Shabbat


Torrwch allan y lluniau a'r geiriau. Dosbarthwch nhw'n ddau grŵp sy'n dangos:

1. Pethau y byddai caniatâd i chi eu gwneud ar y Shabbat
2. Pethau **na** fyddai caniatâd i chi eu gwneud ar y Shabbat




coginio

yfed



bwyta

siopa



canu


eistedd



cysgu

sugno llwch

gweithio



Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Gan ddefnyddio glôb a lamp, archwiliwch beth sy'n digwydd wrth i'r haul godi a machlud
- Meddyliwch pam mai goleuni a grëwyd yn gyntaf yn ôl stori'r Creu, a meddyliwch sut le fyddai yn y byd heb oleuni

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Darllenwch stori Iddewig y Creu, a myfyriwch ar ddelweddau o fyd natur
- Myfyriwch ar y gair 'da' a beth mae'n ei olygu i chi. Beth oedd yn 'dda' am y pethau a grëwyd yn stori'r Creu

Datblygiad iaith Gymraeg

- creadigaeth
- nefoedd a daear

Datblygiad corfforol

- Crëwch ddawns yn darlunio stori'r creu, naill ai'n canolbwyntio ar un dydd neilltuol neu ar y stori gyfan
- Meddyliwch am yr holl greaduriaid cyflym a'r creaduriaid araf yn y byd – symudwch fel malwen a symudwch fel ceffyl

Datblygiad creadigol

- Cyfansoddwch gerddoriaeth ar gyfer Stori'r Creu
- Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, crëwch lun o awyr y nos

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Meddyliwch am y gwahaniaethau rhwng cinio yn eich cartref chi a chinio yng nghartref Rachel a Nathan ar nos Wener (**Gweithgaredd 7**)
- Sut ydych chi'n meddwl mae Nathan a Rachel yn teimlo wrth gael eu bendithio?

Datblygiad mathemategol

- Rhowch gynnig ar gyfrif fesul dau neu ddwy (dwy gannwyll, dwy dorth, dwy stori)
- Edrychwch ar lun o awyr serog y nos a chyfrifwch y sêr

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Cinio Shabbat



Cinio yn fy nghartref ar nos Wener



Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pa greaduriaid sy'n dod allan yn y nos, a pha greaduriaid sy'n dod allan yn y dydd
- Dosbarthwch luniau o bethau byw i wahanol grwpiau (e.e. adar, pryfed, mamaliaid, ymlusgiaid, bodau dynol, planhigion, pysgod)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Lluniwch gerdd am y pili-pala
- Siaradwch am y lluniau o'r dydd a'r nos. Pa bethau byw eraill fydddech chi'n eu hychwanegu at y lluniau?

Datblygiad iaith Gymraeg

- awyr
- môr

Datblygiad corfforol

- Ewch i ymweld â'r pwll nofio lleol, a chan ddefnyddio fflôt, smaliwch eich bod yn bysgodyn neu'n ddolffin yn y dŵr
- Smaliwch fod yn froga neu'n llyffant a neidiwch o gwmpas

Datblygiad creadigol

- Gan ddefnyddio TGCh, dyluniwch label ar gyfer y biniau ailgylchu
- Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a modelau bach o greaduriaid, crewch fodel o olygfa o fyd natur

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Ewch i ymweld â gerddi cyhoeddus neu barc. Mwynhewch yn dawel ac archwiliwch y byd natur o'ch cwmpas, gan ddefnyddio eich synhwyrâu i gyd
- Dysgwch pa mor bwysig yw gwaredu eich sbwriel yn y ffordd gywir, a sut mae gwneud hynny

Datblygiad mathemategol

- Adroddwch enwau dyddiau'r wythnos yn y drefn gywir, a sylwch fel mae rhai o'r enwau Cymraeg wedi eu henwi yr un enwau â phlanedau
- Dysgwch fod diwrnod wedi ei rannu'n 24 awr, a dangoswch mewn llun sut mae'r 24 awr yn cael eu rhannu yn ôl gwahanol weithgareddau (**Gweithgaredd 8**)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol




Ymatebion
personol



Cwestiynau



Dewiswch wahanol liwiau ar gyfer gwahanol weithgareddau, ac yna lliwiwch rannau'r cylch i ddangos 'eich diwrnod chi'.



dosbarth	bwyta	chwarae	cysgu	gweithgareddau eraill



Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Gan ddefnyddio glôb y byd, dysgwch ble mae Mynydd Sinai mewn perthynas â'ch ysgol
- Edrychwch ar luniau o Fynydd Sinai a'r ardal o gwmpas, a chymharwch y rhain â lluniau o olygfeydd yn eich ardal leol

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Copïwch y Deg Gorchymyn yn ofalus ar ddau ddarn o lechen (neu dim ond y gorchymyn cyntaf a'r pedwerydd)
- Siaradwch am gael 'diwrnod i ffwrdd' o'r gwaith (neu o'r ysgol) a'i osod ar wahân i ddyddiau eraill yr wythnos

Datblygiad iaith Gymraeg

- sanctaidd
- Deg Gorchymyn

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl Moses yn dringo Mynydd Sinai ac yn cario'r llechi cerrig i lawr o ben y mynydd
- Pa ddillad, offer, a bwyd a diod ddylech chi fynd gyda chi os ydych chi'n mynd ar daith gerdded hir neu'n dringo mynydd? (**Gweithgaredd 9**)

Datblygiad creadigol

- Lluniwch ddwy lechen garreg i ddangos y Deg Gorchymyn
- Crëwch saith panel celf wedi eu gosod ochr yn ochr i ddangos gweithgareddau ar chwe diwrnod gwaith yr wythnos ac ar y Shabbat

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Siaradwch ynghylch pa mor bwysig yw dilyn rheolau, a pham bod rheolau'n cael eu llunio (e.e. yn yr ysgol, yn y pwll nofio)
- Archwiliwch pa mor bwysig yw hi i bobl ddilyn rheolau sy'n perthyn i'w ffydd grefyddol

Datblygiad mathemategol

- Dysgwch gyfrif fesul deg (y Deg Gorchymyn)
- Cymharwch ystadegau sylfaenol ar gyfer yr ardal o gwmpas Mynydd Sinai gydag ardal y mae'n bosib ei chymharu yn eich ardal leol chi


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Paratoi ar gyfer taith cerdded

Pa **ddillad**, **offer**, a **bwyd a diod** ddylech chi fynd gyda chi os ydych chi'n mynd ar daith gerdded hir neu'n dringo mynydd?



Dillad

Offer

Bwyd a diod



Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Pa bryd mae canhwylau'n cael eu defnyddio, y dyddiau hyn, a pham?
- Archwiliwch wahanol ffyrdd o storio gwybodaeth (h.y. gwahanol ffyrdd o gofio)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ar y templedi sydd wedi eu darparu i chi, ysgrifennwch y pethau rydych chi'n ddiolchgar amdanyn nhw. Crëwch arddangosfa dosbarth gyda'r teitl 'Diolchwn am ...' (**Gweithgaredd 10**)
- Ailadroddwch y stori – beth allwch chi ei gofio?

Datblygiad iaith Gymraeg

- teulu
- cofio

Datblygiad corfforol

- Rhannwch gyfres o weithgareddau corfforol i grwpiau o ddeg (Deg Gorchymyn)
- Eisteddwch yn llonydd iawn fel Nathan a Rachel, a chofiwch am y pethau rydych chi'n ddiolchgar amdanyn nhw

Datblygiad creadigol

- Gwrandewch ar rai storïau Iddewig
- Dysgwch rai caneuon Iddewig syml am y storïau hynny

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

- Myfyriwch ar y pethau rydych chi'n ddiolchgar amdanyn nhw, a'u trafod
- Meddyliwch am sut mae Aled, Siân, Nathan a Rachel yn teimlo pan fyddan nhw'n canu ac yn sgwrsio gyda'i gilydd ar ôl i'r pryd bwyd ddod i ben

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch yn ôl o'r rhif 10, cyfrifwch yn ôl fesul grwpiau o 10 (y Deg Gorchymyn)
- Holwch ynghylch pa amser mae'r Shabbat yn dechrau ac yn dod i ben y dydd Gwener hwn




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol

Ymatebion
personol

Mewnwelediad



Diolchwn am...





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae goleuni o'r haul yn ysbrydoli cwestiynau crefyddol.
Maes dysgu	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Crëwch gysgodion ac archwiliwch sut mae cysgodion yn newid gyda goleuni, siâp a phellter.

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n edrych ar y byd drwy ffenestr eich ystafell wely.
Maes dysgu	Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Siaradwch am beth ydych chi'n ei weld drwy ffenestr eich ystafell wely. Sut mae'n debyg, a sut mae'n wahanol, i'r hyn mae Aled a Siân yn ei weld?



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pam y gallai pobl grefyddol fod yn ofalus ynghylch peidio â gwastraffu trydan. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch am beidio â bod yn wastraffus drwy ddiffodd y goleuadau.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio pwysigrwydd elusen i lldewon. Datblygiad corfforol Trefnwch weithgaredd fel taith gerdded noddedig neu ras o gwmpas tir yr ysgol.
---	--



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio sut mae pobl grefyddol yn teimlo cyfrifoldeb am y byd sy'n datblygu. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Dysgwch am lefydd sydd â mynediad cyfyngedig at drydan.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut mae crefydd yn ysgogi pobl, fel mae batris yn rhoi ynni i dortshis. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Siaradwch am bethau sy'n defnyddio batris, a beth fyddech chi ddim yn gallu ei wneud heb fatris.
---	--



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio sut mae'r ddelwedd o stormydd yn cael ei defnyddio yn y Beibl Iddewig. Datblygiad corfforol Cymrwch arnoch eich bod yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth y storm mor gyflym ag y gallwch chi.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Archwilio sut mae pobl grefyddol yn ceisio amddiffyniad Duw rhag stormydd. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Archwiliwch yr effaith y mae stormydd yn eu cael ar fywydau pobl yn y wlad hon ac mewn gwledydd eraill.
---	--




Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio'r ystyr y mae canhwyllau'n ei roi i'r Shabbat.
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Addurnwch gannwyll ar gyfer y Shabbat.

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut rydych chi'n teimlo'n eistedd wrth fwrdd gyda chanhwyllau'r Shabbat wedi eu goleuo.
Maes dysgu	<i>Datblygiad corfforol</i> Gosodwch fwrdd ar gyfer y Shabbat, gan osod popeth yn ei le'n ofalus, yn cynnwys y canhwyllau.



Tudalennau 14-15



Agwedd ar yr ystod

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio bendith y Shabbat.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Ysgrifennwch un o fendithion y Shabbat a gwneud ffrâm llun i'w harddangos.



Agwedd ar yr ystod

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut mae pryd bwyd y Shabbat wedi dylanwadu ac yn dylanwadu ar lldewon heddiw.

Maes dysgu

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl pryd bwyd y Shabbat sy'n cael ei gynnal ar y nos Wener.



Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. Archwilio sut mae pobl grefyddol yn deall stori'r creu. Datblygiad creadigol Cyfansoddwch gerddoriaeth ar gyfer stori'r creu.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio sut mae pobl grefyddol yn derbyn cyfrifoldeb am y byd. Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Ystyriwch y gair 'da' a'r hyn mae'n ei olygu i chi. Beth oedd yn 'dda' ynghylch y pethau a grëwyd yn stori'r creu?
---	--



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae pobl grefyddol yn ymateb i greadigaeth Duw.
Maes dysgu	<i>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</i> Ewch i ymweld â gerddi cyhoeddus neu barc. Mwynhewch ac archwiliwch yn dawel y byd naturiol o'ch cwmpas, gan ddefnyddio eich holl synhwyrau.

Agwedd ar yr ystod	 Gofyn cwestiynau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae pobl grefyddol yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol ynghylch dechreuadau bywyd.
Maes dysgu	<i>Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Ysgrifennwch gerdd am y pili-pala.



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio ystyr y dydd o orffwys i bobl grefyddol. <i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> • Siaradwch am gymryd 'diwrnod i ffwrdd' o'r gwaith (neu'r ysgol) a'i osod ar wahân i ddyddiau eraill yr wythnos.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio'r ffordd y mae'r dydd o orffwys wedi dylanwadu ar bobl grefyddol. <i>Datblygiad creadigol</i> • Crëwch 7 panel celf wedi eu gosod ochr yn ochr i ddangos gweithgareddau ar chwe diwrnod gwaith ac ar y Shabbat.
---	--



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut rydych chi'n teimlo a mynegi diolch i eraill.
Maes dysgu	Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Ystyriwch a siaradwch am y pethau rydych chi'n ddiolchgar amdany'n nhw.

Agwedd ar yr ystod	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio sut mae llonyddwch a distawrwydd yn helpu pobl grefyddol i fod yn ddiolchgar.
Maes dysgu	Datblygiad corfforol Eisteddwch yn llonydd iawn fel Nathan a Rachel, a chofiwch am y pethau rydych chi'n ddiolchgar amdany'n nhw.